Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

**Gwybodaeth i Gleifion**

**Mycophenolate Mofetil (MMF)**

**Uned y Llygaid**

---

## Beth yw e?

Mae Mycophenolate Mofetil (MMF), a elwir weithiau yn Cellcept, yn gyffur sydd wedi cael ei ddefnyddio i drin cleifion sydd â llid yn dilyn trawsblaniad organau megis y galon, yr arennau a'r afu. Mae angen 'diffodd' eu celloedd imiwnedd i'w hatal rhag ymosod ar yr organ a roddwyd. Mae astudiaethau clinigol wedi dangos y gall y cyffur hwn hefyd atal llid yn y llygad.

## Pryd na ddylid defnyddio MMF?

(Neu dim ond ar ôl trafod gyda'ch ymgynghorydd)

- Os ydych yn feichiog neu'n meddwl y gallech fod yn feichiog
- Os oes gennych glefyd yr afu neu glefyd yr arennau
- Os ydych yn bwydo ar y fron
- Os ydych wedi cael brechiadau yn ddiweddar neu ar fin cael brechiadau
- Os ydych yn cymryd gwrthgeulyddion geneuol fel warfarin neu gyfryngau gwrth-gwyneg fel allopurinol

## Pryd y dylech fod yn ofalus wrth gymryd MMF?

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrth eich meddyg os:

- Ydych yn cleisio neu’n gwaedu heb esboniad
- Ydych yn cael cyfnodau o haint
- Ydych chi’n cymryd unrhyw feddyginiaeth arall
- Ydych wedi dod i gysylltiad â brech yr ieir neu'r eryr neu wedi eu datblygu eich hun – ceisiwch gyngor meddygol ar unwaith gan y gallai fod angen i chi gymryd cwrs o feddyginiaeth gwrth-feirysol

Dylech geisio lleihau eich amlygiad i heintiau. Gellir gwneud hyn drwy:

- Osgoi cysylltiad agos â phobl y gwyddoch sydd â haint.
- Golchi eich dwylo'n rheolaidd a chario potel fach o gel gwrthfacterol ar gyfer y dwylo.
- Cadw eich ceg yn lân trwy frwsio eich dannedd yn rheolaidd.
- Rhoi'r gorau i ysmygu os ydych yn ysmygwr.
- Sicrhau bod eich bwyd yn cael ei storio a'i baratoi'n iawn.
- Ceisio cadw eich tŷ yn lân ac yn hylan, yn enwedig y gegin, yr ystafelloedd ymolchi a'r toiledau.

## A allaf gael imiwneiddiadau tra byddaf yn cymryd MMF?

Os ydych yn cymryd mycophenolate, dylech osgoi brechlynnau byw, megis y dwymyn felen. Fodd bynnag, mewn sefyllfaoedd penodol gall brechlyn byw fod yn angenrheidiol, felly siaradwch â'ch fferyllydd neu eich meddyg am hyn i gael eu cyngor.
Mae'n syniad da cael y brechlyn niwmococol, i'ch amddiffyn rhag yr achos mwyaf cyffredin o niwmonia, a'ch brechlynnau ffliw blynyddol. mae’r ddau frechlyn hyn yn ddiogel i'w cael tra byddwch yn cael eich trin â mycophenolate
Nid yw’r brechlyn Covid-19 a gynigir yn y DU yn cynnwys firysau byw, ac felly mae'n ddiogel i'w gymryd.

## Sut y dylid cymryd MMF?

Cymerwch y tabledi bob amser yn unol â chyfarwyddiadau eich meddyg. Llyncwch y tabledi yn gyfan, peidiwch â'u sugno na'u cnoi.
Bydd eich arbenigwr yn dweud wrthych pa ddos i'w gymryd, ac efallai y bydd y dos yn newid yn barhaus. Fel arfer mae'r dos yn dechrau ar 500mg ddwywaith y dydd, gan gynyddu'n raddol yn seiliedig ar eich ymateb i'r feddyginiaeth er mwyn cyrraedd y dos mwyaf effeithiol i drin eich cyflwr. Y dos fwyaf y byddwch yn ei chymryd fydd rhwng 1-3 gram y dydd, yn dibynnu ar bwysau eich corff a'ch therapi ymateb. Mae'n gweithio'n araf a gall gymryd hyd at sawl wythnos i gael effaith lawn.
Os byddwch yn methu dos, cymerwch hi cyn gynted ag y byddwch yn sylweddoli, cyn belled bod hyn o fewn 6 awr i'r amser y byddwch yn ei cymryd y ddos fel arfer. Os oes mwy na 6 awr wedi mynd heibio, yna hepgorwch y ddos a fethwyd a chymerwch y dos nesaf ar yr amser arferol. **Peidiwch â dyblu'r dos.**
Os byddwch yn cymryd gormod o dabledi neu os bydd rhywun arall yn cymryd eich meddyginiaeth ar ddamwain, cysylltwch â'ch meddyg, fferyllydd neu'r ysbyty agosaf ar unwaith.

## Beth yw'r sgîl-effeithiau posibl?

Fel arfer mae'r driniaeth hon yn cael ei goddef yn dda. Fodd bynnag, efallai y byddwch yn cael rhai adweithiau annymunol. I ddechrau, efallai y byddwch yn teimlo'n gyfoglyd ar ôl cymryd y tabledi. Gellir lleddfu hyn yn aml trwy eu cymryd ar ôl bwyd.
Gall blinder cyffredinol ddigwydd ar y dechrau ond mae'n diflannu ar ôl defnydd parhaus.
Gall salwch, chwydu, dolur rhydd a phoen yn yr abdomen ddigwydd hefyd i ddechrau ond mae'n diflannu wrth i chi ei gymryd dos is yn barhaus.
Mae mycophenolate yn gwanhau eich system imiwnedd, ac felly gall gynyddu eich risg o haint. Os byddwch yn datblygu unrhyw arwyddion o salwch neu sgîl-effeithiau megis haint, cleisio anesboniadwy, gwaedu, dolur gwddf, wlserau yn y geg neu dwymyn, yna cysylltwch â'ch meddyg neu fferyllydd ar unwaith.
Weithiau, mae pobl yn profi ychydig o gryndod, cur pen neu boen yn y cyhyrau.
Gall gael effeithiau eraill llai cyffredin hefyd gan gynnwys cynnwrf a gorbryder, nam ar swyddogaeth yr afu a chlefyd melyn. Mae lymffoma wedi’i adrodd ond mae'n brin iawn. Os oes effeithiau difrifol, mae'r driniaeth yn cael ei stopio'n llwyr.

Er ei fod yn anghyffredin, mae risg ychydig yn uwch o fathau penodol o ganser, megis canser y croen, mewn pobl sy'n defnyddio mycophenolate. Fodd bynnag, mae'r cysylltiad rhwng y ddau yn aneglur.

Gellir trin canserau'r croen yn llwyddiannus yn aml pan gânt eu diagnosio'n gynnar. Er mwyn bod yn saff, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwisgo eli haul ac yn gwirio'ch croen yn rheolaidd am unrhyw smotiau newydd neu newidiadau i'ch brychni haul neu fannau du.

Yn anaml iawn, gall cleifion sy'n cael eu trin â mycophenolate ddatblygu cyflwr difrifol o'r enw leukoencephalopathy amlffocal cynyddol, a elwir hefyd yn PML, a all niweidio'r ymennydd a'r asgwrn cefn. Mae'n rhaid i chi weld eich meddyg ar unwaith os byddwch yn sylwi ar unrhyw un o'r symptomau canlynol:

- Pinnau bach
- gwendid, cryndod neu ansefydlogrwydd
- Colli pwysau
- problemau gyda'ch lleferydd
- newidiadau mewn ymddygiad neu'ch hwyliau
- anhawster symud eich wyneb, breichiau neu goesau

**A yw MMF yn effeithio ar ffrwythlondeb neu feichiogrwydd?**
Rydym yn cynghori pob menyw o oedran cael plant sy'n cymryd triniaethau gwrthimiwnedd i osgoi beichiogrwydd gan y gall rhai cyffuriau gynyddu'r risg o namau geni a/neu broblemau datblygiadol. Efallai y bydd angen i ddynion sy'n cymryd triniaethau gwrthimiwnedd gymryd rhagofalon hefyd. Mae'r dull mwyaf priodol o atal cenhedlu yn dibynnu ar y feddyginiaethau yr ydych chi'n eu cymryd felly gofynnwch i ni am gyngor. Rhowch wybod i ni os ydych yn dymuno cychwyn teulu er mwyn i ni allu trafod opsiynau triniaeth gyda chi.

**Monitro tra byddwch ar Mycophenolate**
Gall Mycophenolate effeithio ar y cyfrif gwaed ac weithiau gall achosi problemau gyda'r afu neu'r arennau. Fel rhagofal, bydd eich meddyg yn trefnu i chi gael prawf gwaed cyn i chi ddechrau triniaeth a phrofion gwaed rheolaidd tra byddwch yn cymryd mycophenolate. I ddechrau yn y rhan fwyaf o achosion cynhelir profion gwaed bob 2 i 4 wythnos yna bob 2-3 mis ar ôl yr ychydig fisoedd cyntaf. Cadwch nodyn o pryd y mae angen i chi gael eich profion gwaed a chofiwch atgoffa eich meddyg amdanynt. Mae lefelau yn dychwelyd i normal pan fydd y driniaeth yn cael ei lleihau neu ei stopio.

Os byddwch yn profi unrhyw broblemau yn ymwneud â'r cyffur, cysylltwch â'ch meddyg teulu neu'r adran Llygaid yn Ysbyty Brenhinol Gwent:

Clinig Atgyfeirio Brys (Llun-Gwen 08:30-17:30) – 01633 238856
Ysgrifenyddes Mrs Mitra – 01633 238155
Ysgrifenyddes Mrs Reynold – 01633 234885
Ysgrifenyddes Ms Sharma – 01633 238443
Nyrs Arbenigol Uveitis (Claire Smith) – 01633 238856

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English."**